# Cod Ymarfer

# (ffilmio ar y briffordd gyhoeddus)

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Mae'r Cod Ymarfer yn gytundeb gwirfoddol a gynlluniwyd i weithio ar y cyd â chanllawiau ffilmio. Ei nod yw amlinellu'r gofynion cyffredinol a'r protocolau sy'n ddisgwyliedig er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ansawdd a bod pob parti yn rhoi ystyriaeth i bawb yr effeithir arnynt.

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn croesawu cwmni sy'n cynhyrchu ffilmiau ac ystyrir Ceredigion yn agored waith ffilmio.

Mae gan Geredigion nifer o leoliadau unigryw o ardaloedd gwledig eang megis tir fferm i leoliadau glan môr a safleoedd diwydiannol gwag. Mae hefyd gennym ystod eang o adeiladau hanesyddol prydferth yn ogystal â bythynnod a phentrefi. Byddwn yn falch iawn i ystyried eich anghenion a'u diwallu lle bynnag y bo'n bosib ac mi fyddwn bob amser yn ceisio cynorthwyo â'r gofynion ffilmio.

Cydnabyddir bod y mwyafrif o gwmnïau cynhyrchu yn ymddwyn mewn modd proffesiynol. Fodd bynnag, gofynnir i bob cwmni ffilmio i ystyried yr hyn sydd o'u hamgylch.

Rhaid i gynyrchiadau fod yn ystyriol i'r amgylchedd yr hoffent ei ddefnyddio gan weithio o fewn unrhyw gyfyngiadau y byddant yn dod ar eu traws mewn lleoliadau sydd mewn ardaloedd o brydferthwch naturiol amlwg gan sicrhau y diogelir yr amgylchedd hwnnw. Yr un yw'r sefyllfa wrth weithio gydag adeiladau hanesyddol neu gofebion a ystyrir yn fregus neu'n sensitif.

Bydd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gofal tuag at breswylwyr a busnesau gan weithredu os bydd cynhyrchiad penodol yn achosi sŵn neu niwsans afresymol.

Rhaid cymryd bob rhagofalon posib er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd bob amser a dylai rhif cyswllt ar gyfer y cynhyrchiad fod ar gael i'r cyngor a'r heddlu.

Rhaid meddu ar ganllawiau clir o'r hyn sy'n ofynnol yn y sgript neu mewn golygfa benodol a rhaid cymryd gofal priodol wrth ffilmio mewn ardaloedd sensitif neu yn ystod amserau anghymdeithasol

Dylai gwaith mewn unrhyw ardal fydd angen unrhyw fath o adeiladu setiau, gwisgo ardal neu ei drosi i rywbeth arall neu ddefnydd o effeithiau arbennig sicrhau y caiff ei ddychwelyd i'r safon sy'n ofynnol.

Bydd y cod ymarfer yma'n gosod y safonau y gofynnir i gwmnïau cynhyrchu a/neu isgontractwyr eu dilyn wrth ffilmio yng Ngheredigion

**Canllawiau ffilmio (ffilmio ar y briffordd gyhoeddus)**

Nod y canllawiau yma yw gweithredu fel rhestr wirio ar gyfer yr holl bartïon hynny a hoffai ffilmio ar leoliad gan sicrhau bod pob maes ystyriaeth a diogelwch yn flaenoriaeth. Os bydd elfennau na chaiff eu cynnwys neu os oes unrhyw amheuaeth am hyn a nodir dylech chi drafod y mater gydag Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ceredigion cyn unrhyw ffilmio.

**Anifeiliaid**

- Dylai defnydd anifeiliaid mewn cynhyrchiad gael ei drafod yn fanwl cyn ffilmio a bydd yn rhaid dilyn taflenni canllawiau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Mae'n bosib y bydd defnyddio a symud rhywogaethau penodol yn glwm wrth drwydded o dan ddarpariaethau Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976. Dylid cysylltu â'r Awdurdod Lleol priodol am fwy o gyngor a gwybodaeth parthed y bwriad i ddefnyddio neu symud unrhyw rywogaeth berthnasol sy'n glwm wrth y Ddeddf neu reoliadau cysylltiedig

**Ceblau**

- Dylid sicrhau bod yr holl geblau yn ddiogel wrth iddynt gael eu gosod ac nid mynd nôl i wneud hynny.
- Rhaid gosod ceblau yn y gwter ar bwys y briffordd neu yn y gyffordd rhwng wal a throedffordd.
- Rhaid tapio unrhyw geblau ar risiau er mwyn osgoi unrhyw risg o faglu arnynt.
- Lle bynnag y bo'n bosib dylai ceblau gael eu gosod o leiaf 17' (5.2m) uwchben y briffordd a 8'6" (2.6m) uwchben troedffyrdd. Bydd y cyngor/ swyddfa ffilmio lle bynnag y bo'n bosib yn ceisio sicrhau bod lle i barcio generadur sy'n osgoi'r angen i groesi ceblau ar draws y briffordd.
- Os bydd angen gosod ceblau ar draws troedffordd mae'n bosib y bydd amser pan fydd yn ddigonol i osod ceblau ar ongl sgwâr o dan fat rwber wedi ei dapio. Dylid ystyried matiau rwber yn gyfarpar diogelwch hanfodol fel mater o drefn. Dylai matiau o'r fath fod;
- (a) o leiaf un metr o led, a;
- (b)yn weladwy i'r cyhoedd drwy ddefnyddio goleuadau priodol, conau neu dâp gweledeedd uchel.
- Ar ffyrdd mwy tawel mae'n bosib y bydd yn dderbyniol i osod ceblau drwy ddefnyddio rampiau ceblau priodol. Os gwneir hynny bydd yn rhaid defnyddio arwyddion

priodol a derbyn cymeradwyaeth oddi wrth y Cyngor i wneud hynny.

**Arlwyo a gwaredu sbwriel**

- Bydd y gwaith o gasglu sbwriel a glanhau strydoedd yn gyfrifoldeb ar y cwmni cynhyrchu a bydd yn rhaid iddynt wneud trefniadau ar gyfer ei waredu. Os gadewir y gwaith hwn ar gyfer y cyngor codir tâl ar y cwmni cynhyrchu.

**Ffioedd**

Mae'n bosib y codir ffioedd, ar gost, am y gwasanaethau canlynol;

- (a) darparu cerbydau i wneud strydoedd yn wlyb
- (b) casglu sbwriel
- (c) symud celfi stryd
- (d) symud arwyddion uned na chafodd eu symud gan y cwmni cynhyrchu
- (e) diddymu metrau parcio ac unrhyw ddarpariaethau parcio eraill
- (f) unrhyw gasglu sbwriel neu lanhau strydoedd ychwanegol sy'n ofynnol

Codi tâl am unrhyw ddifrod a achoswyd gan y cwmni cynhyrchu i'r ffordd, troedffordd neu gelfi stryd.

**Plant**

- Os cyflogir plant sy'n actorion bydd yn rhaid gwneud hynny o dan y rheoliadau trwyddedu a wnaed yn 1933, 1963, 1968 ac fel y'i diwygiwyd yn 1988.
- Bydd yn rhaid i gwmnïau cynhyrchu sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer anghenion addysg ac iechyd pob plentyn a gyflogir adeg ffilmio.
- Ystyrir plentyn yn berson ifanc llai na 15 oed neu rywun sy'n parhau mewn addysg llawn amser.

**Pobl enwog a phobl sy'n edrych fel pobl enwog**

- Dylid hysbysu'r heddlu o unrhyw berson enwog a fydd yn bresennol neu unrhyw un y bwriedir eu defnyddio sy'n edrych fel rhywun enwog.

**Conau**

- Nid oes gan y defnydd o gonau unrhyw bŵer cyfreithiol er mwyn cadw man parcio a rhaid cytuno ar eu defnydd gan y cyngor

**Ymgynghori**

- Bydd cynnal gwaith ffilmio llwyddiannus yn ddibynnol ar breswylwyr a busnesau lleol yn derbyn rhybudd digonol lle y bo'n briodol.
- Dylid anfon llythyrau at breswylwyr a busnesau lleol yn amlinellu'n llawn y gwaith ffilmio y bwriedir ei wneud gan gynnwys;
- (a)Dyddiad, amser ac union leoliad y ffilmio
- (b)Dyddiad y llythyr
- (c)Rheolwr lleoliad a rhifau cyswllt yr awdurdod lleol
- (d)Nifer y criw neu bersonél cynhyrchu y disgwylir ar leoliad
- (e)Manylion clir o unrhyw waith stỳnt neu wisgo a gynllunnir
- (f)Manylion clir o gynlluniau goleuadau
- (g)Manylion clir o'r argymhellion parcio
- (h)Trefniadau mewn argyfwng a manylion cyswllt

**Craeniau, camerâu craen a llwyfannau erial**

- Os byddwch chi'n bwriadu defnyddio *cherry-pickers* neu graeniau ar y briffordd gyhoeddus bydd yn rhaid i chi hysbysu'r awdurdod perthnasol a derbyn cymeradwyaeth i'w defnyddio.
- Bydd yn ofynnol i'r Rheolwr lleoliad neu'r cwmni hurio'r craen drafod union bwysau'r craen ac union leoliad cyfarpar o'r fath gyda'r awdurdod perthnasol a dylid cadw at amodau unrhyw ganiatâd a roddwyd bob amser.
- Yn ystod y nos neu mewn achosion o welededd isel, dylid gosod goleuadau rhybudd o amgylch y *cherry-picker* neu'r craen.
- Dylai'r gwaith o rigio'r craen a'i dynnu i lawr gael ei wneud ar amser na fydd yn achosi sŵn neu niwsans afresymol.

- Dylid rhoi sylw penodol i ba mor agos yw'r ceblau uwchben cyfredol cyn gosod unrhyw lwyfannau neu graeniau

**Drylliau**

- Bydd yn rhaid trafod unrhyw ddefnydd o ddrylliau ymlaen llaw gyda'r awdurdod lleol a'r heddlu a/neu'r gwasanaeth brys priodol.
- Dylai arfogwr fod yn bresennol ym mhob golyga sy'n cynnwys drylliau

**Asesiad Risg ac Asesiad Iechyd a Diogelwch**

- Bydd yn rhaid i'r cwmni cynhyrchu gymryd, a phrofi iddynt gymryd, ystyriaeth lawn o faterion Iechyd a Diogelwch ar gyfer holl weithwyr.
- Dylid ystyried LOLER (rheoliadau gwaith codi a chyfarpar codi) a PUWER (rheoliadau darparu a defnyddio cyfarpar gwaith). Mae'r rheoliadau yma'n ymwneud â sgaffaldiau goleuadau / sain, llwyfannau a thebyg sy'n debygol o fod ar set ffilmio.
- Bydd yn rhaid i'r cynhyrchydd ddarparu prawf y gwnaed asesiad risg gan berson cymwys a benodwyd gan y cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch (â chymhwyster o NVQ Lefel 3 o leiaf)
- Bydd yn rhaid cynnal asesiad risg llawn o'r lleoliad yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974) Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1992)
- Bydd yn rhaid cynnal gweithgareddau yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974) a rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1992).
- Mae'r mathau o asesiadau risg y byddai o bosib yn ofynnol ar gyfer ffilmio yn cynnwys gwaith Stỳnt, defnyddio deunyddiau fflamadwy neu wenwynig, gwaith adeiladu, gwaith ar uchder a'r defnydd o graeniau a *cherry pickers*.  Bydd hyn yn ogystal ag asesiad risg cynhwysfawr o'r lleoliad ei hun
- Bydd yn ofynnol i'r cyngor roi syniad o'r amser sy'n ofynnol ar gyfer ymgymryd ag asesiad risg a'i gymeradwyo
- Gall methiant i ddilyn gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch priodol annilysu unrhyw yswiriant

**Dillad Gweledded Uchel**

- Bydd yn ofynnol i aelodau'r criw a phersonél cynhyrchu sy'n gweithio ar y briffordd ddefnyddio dillad gweledded uchel i safon EN471. Bydd hyn yn ofyniad diogelwch hanfodol o dan Ddeddf Gwaith Stryd a Ffyrdd Newydd ac y mae'n drosedd i beidio â chydymffurfio â hyn.

- Bydd methiant i wisgo dillad gweledded uchel priodol yn annilysu unrhyw ddarpariaeth yswiriant ar gyfer y gwaith ffilmio yn gyfan gwbl.

**Rheoli priffyrdd a thraffig**

- Pan fydd angen rheoli traffig bydd yn rhaid defnyddio'r heddlu, wardeiniaid traffig neu gynorthwywyr parcio (fel y bo'n briodol) oni bai y cynghorir yn groes i hynny

- Os bydd angen cau'r ffordd arnoch bydd yn rhaid gwneud hyn yn unol â pholisïau Cyngor Sir Ceredigion. Fel arfer bydd angen 3 wythnos yn arwain hyd at gau ffordd am nid yn hwy na 5 niwrnod a bydd angen rhybudd o 6 wythnos o leiaf ar gyfer cau am 5 niwrnod neu fwy fel y gellir ymgynghori â'r awdurdod priffyrdd.

- Ni ddylid gosod na chodi unrhyw arwyddion ar y briffordd (sy'n cynnwys holl droedffyrdd a chloddiau) oni bai am y rheiny o Bennod 8 Maniwal Arwyddion Traffig, ac mi ddylent gael eu cymeradwyo gan y Swyddfa Briffyrdd Leol.

- Ni ddylid peintio marciau ar y briffordd.

- Ni ddylai unrhyw oni bai am yr heddlu gyfeirio neu reoli llif arferol traffig ar ffordd gyhoeddus. Mae'n bosib y bydd rhai eithriadau a dylech gysylltu â'r heddlu a'r awdurdod priffyrdd am fwy o wybodaeth.

- Ni ddylai unrhyw rwystr atal cerddwyr rhag mynd yn ôl eu gwaith o ddydd i ddydd yn ddiogel.

**Indemniti ac Yswiriant**

- Disgwylir i'r cwmni cynhyrchu indemnio'r awdurdod lleol, ei swyddogion a'i weithwyr yn erbyn unrhyw hawliadau neu achosion sy'n codi yn uniongyrchol o ganlyniad i unrhyw niwed i bobl neu ddifrod i eiddo o ganlyniad i weithgareddau'r cwmni cynhyrchu neu ei asiantau.

- Bydd unrhyw ffilmio a wneir yn gyfrifoldeb ar y cynhyrchydd. Bydd yn rhaid dangos prawf ysgrifenedig o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o £6 miliwn cyn ffilmio. Mae'n bosib o ganlyniad i asesiadau risg y bydd angen

cynyddu'r swm yma ac y bydd eithriadau i rai gweithgareddau yn briodol.

**Goleuadau, tyrau golau, sgaffaldiau a generaduron**

- Mae'n bosib y bydd angen trwydded arbennig ar gyfer unrhyw un o'r uchod – dylech wirio gyda'r Awdurdod Lleol
- Bydd yn rhaid trafod y gwaith o adeiladu a lleoli tyrau golau a sgaffaldiau gyda'r awdurdod perthnasol ymhell cyn dechrau ffilmio.
- Dylai unrhyw sgaffaldiau a godir cael ei wneud gan berson(au) cymwys cymeradwy ac wedi eu trwyddedu gan yr awdurdod priffyrdd.
- Os osodir stand goleuadau ar briffordd neu droedffordd bydd yn rhaid hysbysu'r awdurdod lleol a derbyn caniatâd.
- Dylid ystyried y canlynol wrth geisio osgoi unrhyw risg i'r cyhoedd neu weithwyr y cwmni cynhyrchu;
- (a) Dylai holl oleuadau uwchben lefel daear gael eu sicrhau mewn lle yn briodol
- (b) Rhaid bod rhywun wrth ymyl unrhyw stand goleuadau a osodir ar droedffordd bob amser
- (c) Rhaid sicrhau nad yw'r goleuadau yn dallu modurwyr
- (d) Dylid sicrhau na chaiff goleuadau eu cyfeirio'n uniongyrchol tuag at eiddo preswyl ar unrhyw amser heb ganiatâd penodol
- Rhaid i unrhyw generadur a ddefnyddir cydymffurfio â gofynion penodol Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd (1990) ac wedi ei leoli mor bell â phosib o bob eiddo preswyl.

**Ffilmio yn ystod y nos**

Bydd ffilmio yn ystod y nos mewn ardaloedd preswyl yn naturiol sensitif a bydd yn hanfodol ystyried ac ymgynghori â phreswylwyr a busnesau lleol (dylech gyfeirio at yr adran ar Sŵn a Niwsans isod)

- Bydd unrhyw weithgaredd gan gynnwys ffilmio yn glwm wrth Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (1990) o ran sŵn a niwsans.
- Os bydd yr awdurdod lleol yn derbyn cwyn dilys parthed sŵn neu niwsans mi all hyn olygu terfynu'r ffilmio a mynd a'r cyfarpar oddi wrthych. Bydd felly yn syniad da i ffilmio pob golygfa lle bydd angen i'r sŵn ynddo fod yn fwy na

lefel sŵn sgwrsio cyn 22.00 o'r gloch. Dylid sicrhau bod *Walkie-talkies* ar lefel isel ac y defnyddir darnau clust.

- Mae'n bosib bod achosion yn codi lle na ellir symud cyfarpar neu gerbydau trwm yn dawel ar ddiwedd ffilmio. Os felly bydd yn rhaid iddynt gael eu gadael yno gyda swyddogion diogelwch dros nos. Dylai'r Awdurdod priodol eu clirio cyn ffilmio

**Sŵn a Niwsans**

Bydd hawl gan awdurdodau lleol gymryd camau o dan Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd (1990) o ganlyniad i unrhyw sŵn afresymol

**Noethni**

- Bydd yn rhaid hysbysu'r Heddlu o unrhyw noethni yn ystod ffilmio

**Parcio**

- Dylai pob Rheolwr Lleoliad drafod holl geisiadau parcio gyda chynrychiolydd y cyngor yn ddelfrydol pythefnos cyn ffilmio.
- Yn benodol ar gyfer gofynion parcio ar y stryd, gofynion cyfarpar eraill ar y stryd, a mannau parcio bydd yn rhaid eu gadael yn wag er cysondeb.
- Rhaid i'r cyngor sicrhau nad oes unrhyw waith ar y stryd na gwaith cynnal a chadw wedi cael ei drefnu ar gyfer yr amser dan sylw
- Ni fydd hawl gan gerbydau ffilmio barcio yn y fath fodd y byddant yn rhwystro neu'n atal mynediad heb gytundeb i wneud hynny

**Cynllunio**

Mae'n bosib y bydd angen caniatad cynllunio ar gyfer rhai strwythurau dros dro megis:

- Adeiladu set a fydd mewn lle am fwy na 21 niwrnod o'r amser y'i hadeiladwyd i'r amser y caiff ei dynnu i lawr
- Defnydd dros gyfnod hir o adeiladau fel set / stiwdio dros dro

**Propiau neu wasanaeth brys ffug**

Bydd yn rhaid hysbysu'r awdurdod perthnasol a'r gwasanaeth brys dan sylw os bydd unrhyw:

- Ail-greu troseddau
- Os bydd actorion yn cael eu gwisgo mewn iwnifform benodol (Heddlu, ambiwlans neu'r frigâd dan).
- Bydd yn rhaid cuddio unrhyw gerbydau sy'n debyg i gerbydau gwasanaethau brys lle bynnag y bo hynny'n bosib ac yn benodol rhwng cyfnodau ffilmio. Bydd yn rhaid tapio dros unrhyw farciau ar gerbydau pan na chânt eu defnyddio ar gyfer ffilmio neu phan fyddant yn cael eu gyrru ar y briffordd
- Ni ddylid defnyddio seiren ar unrhyw amser ar leoliad a rhaid diffodd goleuadau sy'n fflachio pan nad ydynt yn rhan o'r ffilmio nac yn cael eu defnyddio.
- Yn gyfreithiol bydd yn rhaid i heddlu fod yn bresennol ar gyfer gwasanaethau brys ffug felly dylech gysylltu â Heddlu Dyfed Powys am fwy o wybodaeth.

**Propiau / Celfi ayb**

- Dylai unrhyw propiau / gelfi ayb a ddefnyddir yn ystod ffilmio gael eu symud a sicrhau bod yr ardal fel yr oedd cyn cychwyn ffilmio

**Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus**

- Bydd unrhyw ffilmio a wneir yn gyfrifoldeb ar y cynhyrchydd. Bydd yn rhaid dangos prawf ysgrifenedig o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o £6 miliwn cyn ffilmio. Mae'n bosib o ganlyniad i asesiadau risg y bydd angen cynyddu'r swm yma ac y bydd eithriadau i rai gweithgareddau yn briodol.

**Asesiad Risg**

- Mae'n bosib y bydd angen asesiad risg i fodloni darpariaethau yswiriant a goblygiadau statudol i weithwyr ac unrhyw un yr effeithir arnynt gan eu hymddygiad. Dylech wirio gyda'r Awdurdod Lleol os bydd angen hyn.
- Mae'n bosib y bydd angen asesiadau ychwanegol yn ddibynnol ar y math o ffilmio

**Marciau ar y ffordd ac arwyddion**

- Bydd angen cymeradwyaeth benodol yr awdurdod perthnasol yn ogystal â hysbysu'r Heddlu os bwriedir cuddio neu newid marciau ffordd, llinellau melyn neu unrhyw arwydd arall ar y ffordd dros dro.
- Rhaid adfer popeth fel yr oedd ar ôl ffilmio

**Arwyddion a Graffiti**

- Bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol gymeradwyo holl arwyddion sy'n cyfeirio'r criw i leoliadau penodol a bydd yn rhaid eu tynnu i lawr ar ôl ffilmio
- Bydd yn rhaid cynllunio ar gyfer unrhyw graffiti o leiaf 21 niwrnod ymlaen llaw.

**Ailchwarae Sain**

- Gellir ond ffilmio artistiaid mewn sefyllfa lle caiff sain ei ailchwarae gyda chytundeb yr awdurdod perthnasol ymlaen llaw bob amser.

**Celfi stryd a goleuadau Stryd**

Bydd y gwaith o symud celfi stryd gan gynnwys arwyddion ac addasu goleuadau stryd fel arfer yn cael ei wneud gan yr awdurdod lleol a chodir tâl am hynny ar y cwmni cynhyrchu.

- Bydd yn rhaid trefnu ar gyfer y gwaith yma drwy'r awdurdod perthnasol
- Mae'n bosib y bydd hawl gan y cwmni cynhyrchu wneud mân waith ac mi fyddai'n ofynnol i'r cwmni cynhyrchu dalu am unrhyw ddifrod a achosir neu unrhyw gostau adfer.

**Styntiau, effeithiau arbennig a phyrotechneg**

Bydd yn rhaid i unrhyw stỳnt, effeithiau arbennig ( gan gynnwys effaith tywydd a chreu mannau gwlyb) yn ogystal â phyrotechneg fod dan reolaeth uniongyrchol cydlynydd styntiau cymwysedig neu gwmni effeithiau arbennig gan gydymffurfio â Deddf Diogelu'r Amgylchedd (1990).

- Bydd yn rhaid trafod unrhyw gynlluniau'r â'r awdurdod perthnasol, a bydd yn ofynnol i'r cwmni cynhyrchu ymgymryd ag asesiad risg cyn ffilmio.
- Ni ddylid defnyddio unrhyw ddrylliau na drylliau ffug heb ymgynghori yn gyntaf a derbyn caniatâd lle y bo hynny'n briodol oddi wrth yr Heddlu a'r awdurdod perthnasol.

**Trac**

- Dylai bob mater sy'n ymwneud â thraciau gael ei drafod gyda'r awdurdod perthnasol cyn ffilmio
- Dylai'r cwmni cynhyrchu sicrhau na chaiff cerddwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn yn benodol eu hatal gan ffilmio.
- Dylid ffensio'r ardal a derbyn caniatâd oddi wrth yr awdurdod lleol i wneud hynny.

**Rheoli Traffig**

- Bydd yn rhaid trafod gydag Adran Briffyrdd y Cyngor unrhyw ffilmio ar y briffordd lle y bydd angen rheoli traffig
- Bydd yn rhaid hysbysu'r awdurdod heddlu lleol o unrhyw waith ffilmio
- Os bydd angen presenoldeb gan yr heddlu mae'n bosib y codir tâl amdano ar y cwmni cynhyrchu

**Creu sefyllfaoedd gwlyb**

- Gellir ond creu sefyllfaoedd gwlyb ar ôl derbyn cymeradwyaeth yr awdurdod lleol ac ar ôl arfarnu'n briodol yr amodau tywydd i ddod yn ogystal â darparu'r arwyddion priodol

**Nodiadau:**

- Mae'r disgrifiad 'priffordd', 'ffordd' a 'throedffordd' a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn unol â Deddf Priffyrdd (1980)
- ·Bydd y disgrifiad *Cynhyrchu* yn cyfeirio at bob math o ffilmio. Yn benodol ffilmiau mawr, cynyrchiadau ar gyfer y teledu, hysbysebion, hyrwyddiadau diod, corfforaethol a lluniau llonydd.

**Nod y ddogfen hon yw darparu canllawiau i ofynion ffilmio ar y stryd a mannau cyhoeddus eraill yng Ngheredigion. Nid yw'n cynnwys pob peth, a gofynnir i reolwyr lleoliad a chwmnïau cynhyrchu wirio gydag awdurdodau lleol unigol o ran ffioedd, polisïau ac arferion lleol. Ni fydd Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled, boed hynny'n ariannol ai peidio, yr honnir iddo gael ei achosi o ganlyniad i'r canllawiau yma.**